------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 23 Mai 2018

Amser: 11.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Naomi Stocks**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCymunedau@cynulliad.cymru

Bydd y Pwyllgor yn lansio ei adroddiad ar wneud i'r economi weithio i'r rheini sydd ag incwm isel

Rhag-gyfarfod (11.15 - 11.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Ymchwiliad i feichiogrwydd, mamolaeth a gwaith yng Nghymru - sesiwn dystiolaeth 9

(11.30 - 12.30) (Tudalennau 1 - 16)

Huw Irranca-Davies AC, y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant

Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

Jo-Anne Daniels, Cyfarwyddwr, Cymunedau a Threchu Tlodi, Llywodraeth Cymru

Owain Lloyd, Is-Gyfarwyddwr, Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar, Llywodraeth Cymru

## 3 Papurau i'w nodi

(Tudalen 17)

### 3.1 Llythyr gan y Llywydd mewn perthynas â Senedd@Delyn

(Tudalen 18)

### 3.2 Llythyr gan y Prif Weinidog mewn perthynas â hawliau dynol yng Nghymru

(Tudalennau 19 - 24)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o eitem 1 yn y cyfarfod ar 7 Mehefin 2018**

**5 Ymchwiliad i feichiogrwydd, mamolaeth a gwaith yng Nghymru – trafod y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitem 2**

(12.30 - 12.40)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

1. Diben y papur hwn yw darparu tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau mewn perthynas â'r ymchwiliad i *Feichiogrwydd, Mamolaeth a Gwaith yng Nghymru*.

2. Mae'r papur tystiolaeth hwn yn adlewyrchu'r gwaith sy'n cael ei wneud ar draws portffolios Arweinydd y Tŷ a'r Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant i hyrwyddo cydraddoldeb o ran beichiogrwydd, mamolaeth a gwaith. Mae'r gwaith hwn yn gydnaws â Ffyniant i Bawb – y strategaeth genedlaethol sy'n ymgorffori ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu economi yng Nghymru sy'n cyflawni ffyniant unigol a chenedlaethol drwy gyfle cyfartal i bawb. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â gwahaniaethu ac anfantais yn ystod beichiogrwydd a mamolaeth fel rhan o raglen waith ehangach sy'n ymdrin ag anghydraddoldeb rhywiol yn ein cymdeithas.

**Y Cynnig Gofal Plant**

3. Mae'r Cynnig Gofal Plant yn un o ymrwymiadau allweddol y llywodraeth fel y nodwyd yn Symud Cymru Ymlaen ac fel yr ymhelaethwyd arno yn Ffyniant i Bawb. Bydd y Cynnig yn darparu 30 awr o addysg gynnar a gofal plant wedi'u hariannu gan y llywodraeth i rieni sy'n gweithio a chanddynt blant tair a phedair blwydd oed am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Bwriad ein Cynnig yw cefnogi economi Cymru drwy helpu rhieni, yn arbennig mamau, i ddychwelyd i'r gwaith neu gynyddu eu horiau gwaith ac felly mae wedi'i dargedu at rieni sy'n gweithio. Yn aml, caiff gofal plant ei nodi fel rheswm gan rieni dros weithio mewn lleoedd penodol, rheswm dros weithio oriau penodol, neu reswm dros beidio â gweithio o gwbl. Rydym eisiau ysgafnhau'r baich ar rieni sy'n gweithio'n galed ac un o nodau sylfaenol y Cynnig yw rhoi'r cymorth ariannol sydd ei angen arnynt i deuluoedd er mwyn helpu gyda chostau gofal plant a'u galluogi i wneud dewisiadau o ran cyflogaeth.

4. Gwyddom fod y mwyafrif o blant yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol yn byw mewn cartrefi lle mae o leiaf un person yn gweithio. Mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir mai gwaith â chyflog da yw'r llwybr gorau allan o dlodi yn ogystal â'r dull gorau o osgoi tlodi. Mae gennym amrywiaeth o raglenni a gynlluniwyd i ymdrin â thlodi mewn gwaith drwy helpu rhieni i gael swydd lawn amser a'i chadw.

5. Mae'r Cynnig yn cynnwys yr hawl gyffredinol bresennol i addysg gynnar drwy ddarpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen, gydag oriau ychwanegol o ofal plant wedi'i ariannu ar gael i blant rhieni cymwys sy'n gweithio. Caiff rhiant sy'n gweithio ei ddiffinio fel rhywun sy'n gweithio mwy nag 16 awr yr wythnos ar yr isafswm cyflog cenedlaethol, hyd at uchafswm o £100,000. Mae rhieni nad ydynt yn gweithio am eu bod ar absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu neu absenoldeb rhiant yn gymwys ar gyfer y Cynnig.

6. Caiff darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen ei darparu gan awdurdodau lleol ac, er bod rhywfaint o amrywiad o ran hawl, mae gan bob plentyn hawl i isafswm o 10 awr o ddarpariaeth Meithrin y Cyfnod Sylfaen o'r tymor ar ôl eu

pen-blwydd yn dair oed tan y mis Medi ar ôl iddo droi'n bedair oed. Dyma pryd mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau ysgol yn llawn amser. Mae'r hawl i elfen gofal plant y Cynnig yn cyd-fynd â'r hawl i ddarpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen.

7. Mae sicrhau bod y Cynnig yn cyd-fynd â darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen hefyd yn golygu yn ystod y tymor ysgol, sef 39 wythnos y flwyddyn, mae'r Cynnig yn cynnwys 30 awr sy'n gyfuniad o ddarpariaeth addysg gynnar a gofal plant. Y tu allan i'r tymor ysgol, mae'r Cynnig yn cynnwys 30 awr o ofal plant yn unig. Gall rhieni gael mynediad i hyd at 9 wythnos o gyllid y tu allan i dymhorau ysgol, sy'n golygu bod cyfanswm o 48 wythnos ar gael bob blwyddyn.

8. Rydym wrthi'n profi'r Cynnig drwy ein rhaglen weithredu gynnar. Mae'n cael ei brofi ar hyn o bryd yn Ynys Môn, Gwynedd, Blaenau Gwent, Caerffili, Sir y Fflint, Rhondda Cynon Taf ac Abertawe, ac rydym yn cynnal trafodaethau ag awdurdodau lleol ledled Cymru ynghylch ymestyn y profion hyn. Ein bwriad yw sicrhau bod y cynnig ar gael mewn o leiaf ran o bob awdurdod lleol yng Nghymru cyn cyflwyno'r cynllun yn genedlaethol ym mis Medi 2020. Mae adolygiad annibynnol o'r trefniadau gweithredu cynnar yn cael ei gynnal ar hyn o bryd gydag adroddiad terfynol ar gynnydd yn ystod y flwyddyn gyntaf i'w gyhoeddi ym mis Hydref.

9. Yn ystod y cyfnod gweithredu cynnar mae awdurdodau lleol yn cynnal gwiriadau cymhwysedd i gadarnhau a yw teulu yn gymwys i fanteisio ar y Cynnig. Yn y tymor hwy, y bwriad yw datblygu llwyfan, sy'n llwyfan digidol yn bennaf, a gaiff ei weinyddu gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Cyflwynwyd Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) ar 16 Ebrill. Bil technegol yw hwn a fydd yn cefnogi'r Cynnig Gofal Plant mewn system genedlaethol, hawdd ei defnyddio er mwyn galluogi rhieni i wirio eu cymhwysedd a gwneud am ofal plant di-dâl a gwneud cais amdano. System ddigidol yn bennaf fydd hon a gaiff ei chynnal gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

10. Fodd bynnag, dim ond rhan o'r darlun yw'r hawl i fanteisio ar y Cynnig ac rydym hefyd yn ystyried y trefniadau darparu. Gall unrhyw ddarparwr gofal plant sydd wedi'i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (neu Ofsted os yw wedi'i leoli yn Lloegr) ddarparu'r agwedd gofal plant ar y Cynnig. Mae cyfradd o £4.50 yr awr wedi'i phennu ar gyfer y cynlluniau peilot ac rydym yn profi cynaliadwyedd y gyfradd gyda'r darparwyr hynny sy'n darparu'r Cynnig ar hyn o bryd. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r sector i feithrin dealltwriaeth well o'r capasiti i ddarparu'r lleoedd sydd eu hangen, ac yn arbennig y capasiti i ddarparu gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg a gofal ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig.

11. Ochr yn ochr â hyn, rydym hefyd yn mynd i'r afael ag amrywiaeth o weithgareddau cymorth ehangach ar gyfer y sector gan gynnwys gweithredu ar gyfraddau busnes, cymorth i wella cynllunio busnes a newidiadau i gymwysterau. Amlinellwyd ein gweledigaeth ar gyfer y sector gofal plant yng Nghynllun y Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar a gyhoeddwyd yn 2017.

12. Rydym hefyd yn cydnabod bod mwy na gofal plant fforddiadwy yn rhwystro rhai rhieni rhag dychwelyd i'r gwaith neu aros mewn gwaith. Mae amharodrwydd i ddefnyddio gofal plant ffurfiol, diffyg hyder ynghylch dychwelyd i'r gwaith neu bryderon ynghylch sefydlogrwydd ariannol hefyd yn rhesymau a roddwyd dros beidio â bod mewn gwaith. Rydym yn ymchwilio i'r materion hyn drwy ein hymgyrch #TrafodGofalPlant ac mae'r Cynnig ei hun yn rhan o gyfres ehangach o raglenni sydd gennym i gynorthwyo rhieni i gael gwaith.

13. Mae Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) yn brosiect gwerth £13.5 miliwn sy'n cael ei ariannu ar y cyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Llywodraeth Cymru, gan weithio mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau. Caiff PaCE ei anelu'n benodol at rieni nad ydynt yn gweithio ac sy'n nodi mai gofal plant yw'r prif rwystr rhag cael mynediad i hyfforddiant neu gyfleoedd gwaith. Hyd ddiwedd Mawrth 2018, roedd y prosiect wedi ymgysylltu â 2883 o gyfranogwyr ac wedi cynorthwyo 896 i gael gwaith. Mae dros 90% o'r cyfranogwyr yn fenywod.

14. Mae cymorth ar gael hefyd o dan y cynllun Gofal Plant Di-dreth, sydd ar gael ledled y DU ac yn darparu cymorth ariannol tuag at gostau gofal plant ar gyfer plant hyd at 12 oed.

## Dyletswyddau Cydraddoldeb

15. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn darparu diogelwch rhag gwahaniaethu i bawb, mewn perthynas â naw nodwedd warchodedig: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol a beichiogrwydd a mamolaeth. Yng Nghymru, nodir ein dyletswyddau cydraddoldeb yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2011. Rydym yn falch o allu dweud mai ni yw'r llywodraeth gyntaf i gyflwyno dyletswyddau cydraddoldeb penodol er mwyn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gwella eu perfformiad o ran Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac yn dangos eu bod yn cydymffurfio â hi. Er mwyn gwneud hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgorffori Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ein dull o lunio polisïau a gwneud penderfyniadau dros sawl blwyddyn.

## Hyrwyddo Cydraddoldeb yn y Gweithle

16. Rydym yn cyllido Chwarae Teg sy'n canolbwyntio'n benodol ar gyfraniad economaidd cynaliadwy menywod mewn meysydd fel cyflogaeth, sgiliau ac entrepreneuriaeth, gan gynnwys cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, trefniadau gweithio hyblyg a dewisiadau academaidd a gyrfa gan ferched a menywod ifanc. Ym mis Rhagfyr 2017, lansiodd Chwarae Teg y Meincnod Cyflogwyr (FairPlay Employer Benchmark) – gwasanaeth newydd i gefnogi cyflogwyr a sefydliadau ar draws y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i ddarparu cydraddoldeb rhywiol yn eu busnes. Caiff sefydliadau sy'n tanysgrifio i'r gwasanaeth eu meincnodi yn nhermau

cydraddoldeb rhywiol yn eu sector a byddant yn gymwys ar gyfer un o bedair lefel gwobr Cyflogwyr Chwarae Teg. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cofrestru ar gyfer y meincnod.

**Anghydraddoldeb o ran Cyflog rhwng y Rhywiau**

17. Yn yr un modd â nodweddion gwarchodedig eraill, mae'n rhaid i bob cyflogwr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru gyhoeddi'r wybodaeth cyflogaeth ofynnol ar rywedd gan roi cipolwg o'i broffil cyflogeion ar 31 Mawrth bob blwyddyn.

18. Mae'r gofynion gwybodaeth a gyhoeddir mewn perthynas â rhywedd yn fanylach na'r hyn a gyhoeddir am nodweddion gwarchodedig eraill. Mae'n rhaid i gorff a restrir gyhoeddi dadansoddiad o nifer y cyflogeion benywaidd a gwrywaidd yn ôl swydd, gradd, cyflog, math o gontract a phatrwm gwaith. Dylai hyn roi awgrym clir o sut y caiff swyddi eu dosbarthu ar draws awdurdod ac ar ba lefel. Bydd hyn yn helpu i nodi nid yn unig y gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau, ond hefyd materion anghydraddoldeb eraill rhwng y rhywiau fel gwahanu galwedigaethol.

19. Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru sy'n nodi gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau naill ai bennu amcan cydraddoldeb cyflog rhwng y rhywiau i ymdrin ag achosion y gwahaniaeth mewn cyflog, neu egluro'n gyhoeddus pam nad ydynt wedi gwneud hynny. Os yw'n ymddangos yn debygol bod y rheswm dros y gwahaniaeth yn ymwneud â'r ffaith bod y cyflogeion hynny yn rhannu nodwedd warchodedig, mae hefyd angen cynllun gweithredu i ymdrin â'r gwahaniaeth mewn cyflog rhwng y rhywiau.

20. Ar hyn o bryd nid yw'n ofynnol i gyrff cyhoeddus gyhoeddi gwybodaeth am eu bylchau cyflog rhwng y rhywiau ar wefan Llywodraeth y DU, ond gallant wneud hynny os dymunant. Rwy'n falch o weld bod nifer o'n cyrff cyhoeddus wedi manteisio ar y cyfle hwn o'u gwirfodd.

21. Cyn bo hir, bydd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn casglu ac yn dadansoddi tystiolaeth o'r gwaith a wnaed ar draws sectorau allweddol i ddiwallu'r gofyniad yn neddfwriaeth Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys y blwch cyflog rhwng y rhywiau. Byddwn yn gweithio'n agos gyda nhw ar hyn ac ar unrhyw gamau pellach sydd angen eu cymryd o ganlyniad i hyn, gan gynnwys trefniadau adolygu ac adrodd ar gyfer sefydliadau yng Nghymru.

**Dileu Gwahaniaethu yn ystod Beichiogrwydd a Mamolaeth o fewn Llywodraeth Cymru**

22. Fel sefydliad, rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i nodi ymyriadau effeithiol i ymdrin â gwahaniaethu yn y gweithle yn ystod beichiogrwydd a mamolaeth. Bydd yr ymyriadau hyn yn gydnaws ag Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig Llywodraeth Cymru. Mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys nifer o ymrwymiadau sy'n ymwneud â'r nodwedd warchodedig beichiogrwydd a mamolaeth.

23. Rydym hefyd wedi addo gwneud ein sefydliad yn lle gorau posibl ar gyfer menywod beichiog a mamau newydd fel rhan o Ymgyrch Gweithio Blaengar y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Yn aml, bydd menywod yn teimlo eu bod wedi'u hynysu o fyd gwaith yn ystod eu habsenoldeb mamolaeth ac er mwyn helpu i ymdrin â hyn, rydym wedi newid ein prosesau er mwyn i fenywod sydd ar absenoldeb mamolaeth allu cadw eu hoffer a'u proffil TG, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Rydym hefyd wedi sefydlu tudalen fewnrwyd y tîm ar gyfer menywod beichiog a rhieni newydd fel rhwydwaith/fforwm anffurfiol.

24. Mae'r rhwydwaith Menywod Ynghyd wedi sefydlu grŵp ffocws i nodi'r prif heriau sy'n wynebu menywod beichiog a rhieni newydd yn y sefydliad ac wedi gwneud argymhellion i'r adran Adnoddau Dynol. Mae'r rhwydwaith yn cydweithio'n agos â'r adran Adnoddau Dynol i ddiwygio polisïau a phrosesau ar gyfer staff beichiog a rhieni newydd (a fydd yn mynd drwy ymgynghoriad ffurfiol gydag Ochr yr Undebau Llafur) ac mae wedi ymchwilio i gyfleusterau bwydo o'r fron a chael llaeth o'r fron ar draws pob swyddfa. Caiff canllawiau ar gyfer rheolwyr llinell a staff eu drafftio a chaiff dulliau cyfathrebu â phobl ar absenoldeb mamolaeth / mabwysiadu / rhiant eu gwella. Ar hyn o bryd, rydym yn cynllunio bore coffi ar gyfer menywod sydd ar absenoldeb mamolaeth lle y gall menywod ei fynychu gyda'u babanod. Mae'r rhwydwaith hefyd yn awyddus i wella canlyniadau a chyfleoedd i fenywod sy'n gweithio'n rhan amser. Cynhaliwyd sesiynau codi ymwybyddiaeth ar rannu swydd ar gyfer yr Uwch Wasanaeth Sifil. Mae'r adran Adnoddau Dynol yn edrych ar sut y gallent gefnogi menywod (a dynion) sydd eisiau gweithio'n rhan amser a rhannu swydd.  Mae gan staff Llywodraeth Cymru hawl i gael trefniadau gweithio hyblyg ac mae ein polisïau a'n prosesau wedi'u dylunio i alluogi hyn.

**Hyrwyddo Cydraddoldeb yn y Gweithle ac mewn Bywyd Cyhoeddus**

25. Un o nodau strategol rhaglen gyllido Cydraddoldeb a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-20 yw helpu i ddarparu cronfa fwy amrywiol o wneuthurwyr penderfyniadau mewn bywyd cyhoeddus. Mae pob un o'r prif asiantaethau ar gyfer y rhaglen hon wedi ymrwymo i gefnogi'r gwaith hwn, drwy weithio gyda'u haelodau, eu rhwydweithiau a'u rhanddeiliaid eu hunain, i'n helpu i nodi a meithrin arweinwyr yng Nghymru nawr ac ar gyfer y dyfodol. Mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru sy'n cynrychioli barn menywod a merched yng Nghymru yn helpu i lywio polisi cenedlaethol, gan hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth ehangach o hawliau menywod a'r materion sy'n effeithio arnynt.

26. Mae ein partneriaid hefyd yn darparu cyngor a dadansoddiad i Lywodraeth Cymru ar faterion megis gwahanu galwedigaethol, parhad bylchau cyflog rhwng y rhywiau a thangynrychiolaeth menywod mewn rolau uwch reolwyr a rolau penderfynu.

**Adolygiad Cyflym o Bolisïau Rhywedd a Chydraddoldeb**

27. Yn ogystal â'r gwaith a nodir uchod ac er mwyn rhoi symbyliad newydd i'n gwaith, cyhoedd y Prif Weinidog ar 8 Mawrth, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, yr Adolygiad Cyflym o bolisïau Rhywedd a Chydraddoldeb. Rydym yn cydweithio'n agos â Chwarae Teg a phartneriaid eraill ar yr adolygiad hwn a fydd yn cynnwys asesiad o'r dystiolaeth sydd ar gael ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau ac ystyriaeth o'r ymchwil a chamau eraill sydd angen eu cymryd yn y maes hwn, gan gynnwys mewn perthynas â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

28. Mae telerau'r adolygiad hwn wedi cael eu cwblhau. Maent yn nodi ein bwriad i roi lle blaenllaw i rywedd wrth wneud pob un o'n penderfyniadau, yn ein dulliau o weithio ac yn ein hymddygiad. Bydd angen ystyried yr holl faterion a godwyd o safbwynt rhyngadrannol a chynhwysol. Bydd dau ddigwyddiad cychwynnol i randdeiliaid yn dechrau'r drafodaeth genedlaethol lle y caiff rhanddeiliaid gyfle i nodi eu blaenoriaethau ar gyfer yr adolygiad. Cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf i randdeiliaid ar 26 Ebrill yn ne Cymru a chynhaliwyd yr ail ar 3 Mai yng ngogledd Cymru. Disgwylir i Gam Un yr Adolygiad gael ei gwblhau erbyn mis Gorffennaf 2018, i'w ddilyn gan Gam Dau a fydd yn parhau tan haf 2019.

**Julie James**
**Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip**

**Huw Irranca Davies**
**Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant**

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

**23 Mai 2018 – clawr y papurau i'w nodi**

| **Rhif y papur** | **Mater** | **Oddi wrth** | **Gweithredu** |
|---|---|---|---|
| ELGC(5)-16-18 Papur 1 | Senedd@Delyn | Y Llywydd | Llythyr ynghylch y digwyddiad Senedd@Delyn sydd wedi'i ail-drefnu |
| ELGC(5)-16-18 Papur 2 | Ymchwiliad i Hawliau Dynol yng Nghymru | Y Prif Weinidog | Llythyr ynghylch goblygiadau Brexit o ran cydraddoldeb a hawliau dynol |

Elin Jones AC, Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Elin Jones AM, Presiding Officer
National Assembly for Wales



Cadeiryddion y Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: EJ/LPR

15 Mai 2018

Annwyl Gadeirydd

Ysgrifennaf atoch ynghylch ein cynlluniau i ail-drefnu digwyddiad Senedd Delyn a ohiriwyd ar gyfer yr wythnos sy'n dechrau ar 25 Mehefin 2018.

Fel rhan o'n rhaglen, byddwn yn cynnal cyfres o weithgareddau i hyrwyddo gwaith y Cynulliad, Senedd Ieuenctid Cymru a dathlu Canmlwyddiant y Mudiad Pleidlais i Fenywod. Caiff ei hategu gan sesiynau allgymorth ac addysg gydag ysgolion, colegau, grwpiau ieuenctid, grwpiau cymunedol, busnesau ac elusennau yn yr ardal. Byddwn hefyd ym marchnad yr Wyddgrug yn ystod yr wythnos.

Yn ystod mentrau blaenorol Senedd@, mae pwyllgorau wedi cynnal cyfarfodydd ffurfiol a sesiynau ymgysylltu anffurfiol mewn lleoliadau cymunedol i annog pobl i gyfrannu at eu gwaith. Mae Senedd Delyn yn gyfle i godi proffil eich Pwyllgor, ac ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid a dinasyddion lleol. Rwy'n deall bod byr rybudd y tro hwn i wneud trefniadau ond, os hoffech gymryd rhan, rydym yn barod i'ch helpu. Rwy'n bwriadu sicrhau y caiff mwy o rybudd ei roi ar raglenni Senedd@ yn y dyfodol i roi mwy o gyfle i gydlynu gweithgarwch.

Diolch ymlaen llaw am eich cydweithrediad.

Yn gywir

Elin Jones

Elin Jones AC
Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

Eitem 3.2

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-16-18 Papur 3/Paper 3

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

David Rees AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

16 Mai 2018

Annwyl John a David

**Goblygiadau Brexit o ran cydraddoldeb a hawliau dynol**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr ar y cyd dyddiedig 5 Ebrill. Rwy'n croesawu'r gwaith y mae eich Pwyllgorau wedi ei wneud ar oblygiadau Brexit o ran cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir na ddylai'r ffaith bod y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd arwain at wanhau mesurau i ddiogelu cydraddoldeb a hawliau dynol, nac unrhyw fesurau eraill i ddiogelu nodweddion cymdeithasol, amgylcheddol neu gyflogaeth.

Nodir ymatebion manwl i'r cwestiynau a'r argymhellion isod.

__Cwestiwn y pwyllgorau:__ **Rydym yn croesawu'r cam o gynnwys adran 7 yn y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru), a fyddai'n golygu bod yn rhaid dehongli cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE yn unol â'r Siarter Hawliau Sylfaenol. Os nad yw'r Bil hwn yn mynd rhagddo am unrhyw reswm, hoffem weld Llywodraeth Cymru yn nodi sut y bydd yn sicrhau bod hawliau'r Siarter yn parhau i gael eu gweithredu yng Nghymru.**

Atgyfeiriwyd y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) ("y Bil CDUE") at y Goruchaf Lys gan y Twrnai Cyffredinol. Fodd bynnag, yn dilyn llwyddiant Llywodraeth Cymru i sicrhau newidiadau i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) Llywodraeth y DU sy'n diogelu datganoli, disgwylir y bydd y Twrnai Cyffredinol yn tynnu hyn yn ôl. Bydd hyn yn galluogi'r Bil CDUE i gael Cydsyniad Brenhinol er mwyn i Weinidogion Cymru allu cymryd camau i ddiogelu'r diddymiad o'r hyn a fydd wedi hynny yn Ddeddf CDUE. O ganlyniad i'r datblygiadau hyn, disgwylir y bydd Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) Llywodraeth y DU yn berthnasol yng Nghymru yn y dyfodol.

Ein hamcan yw sicrhau nad yw Brexit yn arwain at wanhau hawliau a'r safbwynt cyfredol. Felly, rydym yn cefnogi cynnwys diwygiadau anllywodraethol diweddar i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) Llywodraeth y DU a basiwyd gan yr Arglwyddi sy'n gwneud darpariaethau i'r Siarter Hawliau Sylfaenol barhau i gael ei gweithredu. Rydym ar hyn o

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 060 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 060 4400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru PS.FirstMinister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

bryd yn aros am ymateb Llywodraeth y DU yn Nhŷ'r Cyffredin ac yn gobeithio y bydd y DU yn ei dderbyn a fydd yn caniatáu i'r diwygiadau hyn gael eu cynnwys o fewn y Bil a thrwy hynny yn sicrhau'r status quo mewn perthynas â gweithredu'r Siarter Hawliau Sylfaenol yng Nghymru.

Rydym hefyd wedi dechrau trafodaethau gyda Llywodraeth y DU, drwy Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth ('GEO', sydd bellach o fewn y Swyddfa Gartref) ynghylch ymrwymo i Gytundeb Gwleidyddol a fyddai'n cymeradwyo fframwaith presennol y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â thriniaeth gyfartal sydd ar waith o fewn ein gwledydd, sef Deddfau Cydraddoldeb 2006 a 2010 ac is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Deddfau hynny. Ein hamcan yw sicrhau na chaiff unrhyw newidiadau deddfwriaethol eu gwneud a fyddai'n lleihau'r diogelwch parhaol presennol a ddarperir gan y ddeddfwriaeth honno.

<u>Cwestiwn y Pwyllgorau:</u> **Rydym yn rhannu safbwynt ein tystion y dylai'r Gronfa Rhannu Ffyniant y mae Llywodraeth y DU wedi'i chynnig gael ei gweinyddu yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru, a hynny er mwyn sicrhau ei bod yn ymateb i anghenion ac anghydraddoldebau lleol. Rydym hefyd o'r farn y dylid defnyddio'r Gronfa hon i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac anfantais economaidd-gymdeithasol.**

Ym mis Rhagfyr 2017 cyhoeddwyd papur polisi gennym o'r enw Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit, a ategodd ein safbwynt y dylid dyrannu cyllid i Lywodraeth Cymru, a dylai'r cyllid hwnnw gael ei reoli'n llwyr gan Lywodraeth Cymru, i ddisodli cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd. Rydym hefyd wedi cynnal ymarfer ymgysylltu ar y papur polisi (a ddaeth i ben ar 23 Mawrth) i lywio gwaith datblygu yn y dyfodol a byddwn yn cyhoeddi dadansoddiad annibynnol o'r canfyddiadau hynny yn yr haf. Bydd hyn yn parhau i gryfhau'r dystiolaeth o'r galw am bolisi a wnaed yng Nghymru yn seiliedig ar anghenion fel y trafodwyd â Llywodraeth y DU.

Rydym yn parhau i roi pwysau ar Lywodraeth y DU i gadarnhau y caiff datganoli ei barchu mewn perthynas â threfniadau'r dyfodol, ac y bydd Llywodraeth Cymru yn cadw'r gallu i deilwra cyllid y dyfodol ar gyfer ein fframwaith polisi a deddfwriaethol penodol. Mae tystiolaeth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth y DU i bwysleisio nad yw'r galwadau hyn yn deillio o Lywodraeth Cymru yn unig.

Rydym yn cytuno mai dim ond dull a ddyluniwyd gan Gymru a fydd yn ymateb i anghenion ac anghydraddoldebau lleol ac mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gydweithio mewn partneriaeth agos â chymunedau, busnesau a sefydliadau ledled Cymru i gyflawni hyn. Rydym hefyd wedi bod yn glir bod angen inni ymgorffori canlyniadau cymdeithasol ac amgylcheddol yn well i unrhyw fodel yn y dyfodol, gan ddatblygu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ochr yn ochr â chanlyniadau economaidd mwy traddodiadol.

<u>Argymhelliad y Pwyllgorau:</u> **Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru amlinellu ei safbwynt diweddaraf ynghylch cyflwyno'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, o gofio y bydd y pŵer i wneud hynny yn cael ei ddatganoli o dan y setliad newydd.**

Dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i ymdrin â'r anghydraddoldeb sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol, ac i roi'r amcan hwn wrth wraidd eu polisïau a'u rhaglenni , yw'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Caiff y ddyletswydd ei chynnwys yn Rhan 1 Deddf Cydraddoldeb 2010 ond nid yw wedi cael ei defnyddio yn unrhyw le arall yn y DU tan yn ddiweddar, a hynny yn yr Alban. Mae'r pŵer i ddeddfu'r ddyletswydd yng Nghymru wedi cael ei ddatganoli ers 1 Ebrill.

Yng Nghymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf') yw ein hofferyn allweddol ym maes ymdrin ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol yn

arbennig y nod llesiant o Gymru fwy cyfartal.  Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar gyrff cyhoeddus penodol i bennu a chyhoeddi amcanion llesiant a ddyluniwyd i fanteisio i'r eithaf ar gyfraniad i gyflawni pob un o'r nodau llesiant hyn, gan gynnwys Cymru fwy cyfartal.  Mae'r ddeddfwriaeth yn darparu'n benodol ar gyfer hyn fel cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau, gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol.  O gofio bod gennym y ddyletswydd gyfreithiol gadarnhaol a blaengar hon yng Nghymru sy'n ymdrin ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol nid ydym wedi rhoi pwysau ar Lywodraeth y DU yn ddiweddar i ddechrau'r ddyletswydd.

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus yn 2017, mae Llywodraeth yr Alban wedi dechrau'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, a adwaenir fel Dyletswydd yr Alban Decach (the Fairer Scotland Duty).  Yn sgil penderfyniad Llywodraeth yr Alban i weithredu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a'r cyfle i ailymweld â'r maes hwn gyda'r pwerau newydd a ddarparwyd gan Ddeddf Cymru, byddwn yn adolygu ein safbwynt yng nghyd-destun ein Hadolygiad Cyflym o Gydraddoldeb Rhywiol yng Nghymru ac archwilio'r materion a lywiodd penderfyniad Llywodraeth yr Alban i weithredu'r ddyletswydd.  Bydd angen inni ystyried yn ofalus a fyddai'n gywir gosod dyletswyddau ychwanegol a chyfrifoldebau adrodd ar Gyrff Cyhoeddus Cymru yn arbennig pan mae gennym y ddyletswydd gyfreithiol flaengar yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.  Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wrth inni fynd i'r afael â'r gwaith hwn.

**<u>Argymhelliad y Pwyllgorau:</u> Rydym hefyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ymgorffori rhagor o gytundebau hawliau dynol rhyngwladol yng Nghymru, yn yr un modd â'r Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (er enghraifft, y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (ICESCR), neu'r Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CRPD)).**

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i roi ystyriaeth fanwl i gytundebau rhyngwladol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig y mae'r Deyrnas Unedig yn llofnodwr iddynt, a bydd yn ceisio adlewyrchu naws a sylwedd pob confensiwn ar draws ei pholisïau a'i rhaglenni fel y bo'n briodol.  Mae'n rhaid i weithredoedd Llywodraeth Cymru gyfateb â'i rhwymedigaethau rhyngwladol, fel y nodwyd yn Adran 82 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, gan gynnwys saith Confensiwn y Cenhedloedd Unedig a lofnodwyd ac a gadarnhawyd gan blaid Gwladwriaeth y DU.

Byddwn hefyd yn parhau i fonitro effeithiolrwydd y dull hwn yn fanwl, yn cyfrannu at adroddiadau cynnydd ac adolygiadau cyfnodol gyda thystiolaeth ac enghreifftiau o Gymru, yn ymgysylltu â Phwyllgorau perthnasol y Cenhedloedd Unedig yn ystod archwiliadau cyfnodol yn Geneva, ac yn ystyried sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r argymhellion a fydd yn deillio o hynny. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill i sicrhau bod Cymru yn cael ei chynrychioli'n llawn ac yr ymgysylltir â hi yn ystod pob cam o'r broses adrodd.

Bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn parhau i fod yn brif offeryn deddfwriaethol mewn perthynas â hyn, o gofio bod y nodau llesiant a nodwyd yn y Ddeddf yn eang o ran cwmpas ac yn darparu'r fframwaith gorau i alluogi camau gweithredu cydlynol i sicrhau bod hawliau dynol yn cael eu diogelu yng Nghymru.

**<u>Cwestiwn y Pwyllgorau:</u> Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gadarnhau mai bwriad y darpariaethau hyn (adran 3(2) ac adran 4(2)) yw sicrhau nad yw'r hawliau a'r rhwymedigaethau sy'n bodoli ar hyn o bryd (yn enwedig y safonau cydraddoldeb a hawliau dynol sydd o fewn cymhwysedd datganoledig y Cynulliad) yn cael eu tanseilio neu eu diddymu o ganlyniad i Brexit—naill ai gan Lywodraeth y DU yn**

**gweithredu o dan Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael), neu gan Weinidogion Cymru yn gweithredu o dan Fil y Cynulliad.**

Ers eich llythyr ar y cyd dyddiedig 5 Ebrill, cytunwyd y bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i ddiddymu'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru), ar ôl iddo gael ei ddeddfu, yn dilyn cytundeb gyda Llywodraeth y DU ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael). O ganlyniad, bydd ffocws yr ymateb hwn ar y pwerau a gynhwysir o fewn Bil y DU.

Mae gan Lywodraeth Cymru hanes cryf o ddeddfu i ddiogelu safonau cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Mae hyn yn amlwg o enghreifftiau fel Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Rydym yn bwriadu parhau ag ymrwymiad y Llywodraeth hon i'r materion pwysig hyn wrth inni ymgymryd â'r dasg o weithredu Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).

Nodwn gyda diddordeb, a chefnogaeth, yr egwyddorion a gyflwynwyd mewn diwygiadau anllywodraethol a basiwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi i Fil y DU sy'n cyfyngu ar gwmpas y pwerau i addasu cyfraith yr UE i'r hyn sy'n angenrheidiol.

**Argymhelliad y Pwyllgorau: Os yw'r Bil yn destun ddeddfiad, gofynnwn i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r pŵer hwn i flaenoriaethu mesurau i ddiogelu cydraddoldeb a hawliau dynol (cyn belled ag y bo modd). Rydym hefyd yn ailadrodd galwad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau bod Llywodraeth Cymru yn "sefydlu mecanwaith ffurfiol i olrhain datblygiadau yn y dyfodol o ran hawliau dynol a chydraddoldeb yn yr UE, i sicrhau bod dinasyddion Cymru yn elwa o'r un lefel o ddiogelwch â dinasyddion yr UE". Credwn y dylai mecanwaith o'r fath fod ar gael i'r cyhoedd.**

Y bwriad yw y caiff y Bil CDUE ei ddiddymu cyn hir ac felly ni fydd y pŵer yn y Bil hwnnw i wneud is-ddeddfwriaeth i gyd-fynd â chyfraith yr UE, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol, ar gael. Fodd bynnag, mae mecanweithiau deddfwriaethol eraill yn bodoli, gan gynnwys deddfwriaeth sylfaenol a basiwyd gan y Cynulliad, i sicrhau nad yw Brexit yn arwain at hawliau pobl Cymru yn disgyn y tu ôl i'r rhai mewn gwledydd Ewropeaidd eraill.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Chomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y DU i fonitro cynnydd hawliau dynol a chydraddoldeb yng Nghymru, gan nodi datblygiadau yn yr UE ac mewn gwledydd eraill. Mae'r Comisiwn yn y sefyllfa orau i asesu datblygiadau mewn perthynas â hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â'i Bwyllgor a'i Swyddfa yng Nghymru i ystyried y safbwynt mewn perthynas â Chymru.

Mae cynllun pum pwynt y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cynnwys camau gweithredu i sicrhau bod y DU ar flaen y gad mewn perthynas â chydraddoldeb a hawliau dynol drwy sicrhau bod ein cyfreithiau a'n polisïau yn cyd-fynd â safonau cydraddoldeb a hawliau dynol y dyfodol sy'n deillio o'r UE, ar ôl inni ymadael, megis Deddf Hygyrchedd yr UE, yn ogystal â gwledydd cymharol eraill.

**Cwestiwn y Pwyllgorau: Rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru amlinellu ei safbwyntiau ar y materion a ganlyn:**
**- pa asesiad y mae wedi'i wneud ynghylch y posibilrwydd o gyflwyno rhyw fath o hawl annibynnol i gydraddoldeb yng Nghymru, naill ai yn gyffredinol neu o fewn sectorau neu gyd-destunau penodol, a**

**- cynnig Llywodraeth y DU i sefydlu fframwaith anneddfwriaethol i ymdrin â chyfraith triniaeth gyfartal sy'n seiliedig ar gyfraith yr UE ar draws meysydd datganoledig a**

**meysydd nad ydynt wedi'u datganoli, a sut y bydd yn mynd ati i gynnal trafodaethau â Llywodraeth y DU ar y mater hwnnw.**

Mae ymrwymiad cadarn i hyrwyddo cydraddoldeb a diogelu hawliau dynol wedi cael ei ymgorffori o fewn corff Llywodraeth Cymru ers datganoli. Adlewyrchir hyn yn glir mewn Deddfau olynol Llywodraeth Cymru, hyd at a chan gynnwys Deddf Cymru 2017. Adlewyrchir hyn hefyd mewn amrywiaeth eang o ddeddfwriaethau eraill Cymru yn ogystal â pholisïau a rhaglenni Llywodraeth Cymru ar draws pob maes datganoledig.

Yn benodol, mae gennym ddyletswydd sector cyhoeddus Cymru sy'n galluogi'r ddyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus i gyflawni'n well. Mae dyletswyddau penodol Cymru yn flaengar ac yn eang, gan ei gwneud yn ofynnol i gyhoeddi amcanion cydraddoldeb, ymgysylltu, asesiadau effaith, cynlluniau cydraddoldeb strategol ynghyd â chynlluniau cyflog a chynlluniau gweithredu a gwahaniaeth rhwng cyflogau'r ddau ryw. Mae'r dyletswyddau penodol hyn yng Nghymru yn ceisio cael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Yn ogystal, mae'r dyletswyddau penodol yng Nghymru yn datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a'r rhai nad ydynt yn meddu ar y nodweddion hynny a hefyd meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a'r rhai nad oes ganddynt y nodweddion hynny.

Yng Nghymru, mae gennym hefyd Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("Deddf 2015") sy'n ategu ymhellach ein penderfyniad i gynnal a mynd i'r afael â'n hymrwymiad i gydraddoldeb gan roi dyletswydd gyfreithiol ar gyrff cyhoeddus penodol a chyhoeddi amcanion llesiant sydd wedi'u dylunio i fanteisio i'r eithaf ar gyfraniad i gyflawni pob un o'r nodau llesiant, gan gynnwys Cymru fwy cyfartal. Mae Deddf 2015 yn darparu'n benodol ar gyfer hyn fel cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau, gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol. Mae'r ddyletswydd gyfreithiol flaengar hon yn rhoi Cymru mewn safle unigryw ac yn dangos ymhellach yr ymrwymiad i sicrhau cydraddoldeb yng Nghymru, Yn sgil hyn, nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd ar gyfer hawl ychwanegol, annibynnol arall i gydraddoldeb a allai ddyblygu neu fynd yn groes i ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes.

Fel y nodwyd uchod, rydym hefyd wedi dechrau trafodaethau gyda Llywodraeth y DU, drwy Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth ('GEO', nawr o fewn y Swyddfa Gartref) ynghylch ymrwymo i Gytundeb Gwleidyddol a fyddai'n cymeradwyo fframwaith presennol y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â thriniaeth gyfartal sydd ar waith o fewn ein gwledydd, sef Deddfau Cydraddoldeb 2006 a 2010 ac is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Deddfau hynny. Ein hamcan yw sicrhau na chaiff unrhyw newidiadau deddfwriaethol eu gwneud a fyddai'n lleihau'r diogelwch parhaol presennol a ddarperir gan y ddeddfwriaeth honno.

**<u>Argymhelliad y Pwyllgorau:</u> Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, yn ei drafodaethau â Llywodraeth y DU, ofyn am ymrwymiad gan Lywodraeth y DU na fydd yn taro unrhyw gytundebau masnach y byddai eu gweithredu yn erydu unrhyw ran o'r Ddeddf Cydraddoldeb neu'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern.**

Rydym wedi bod yn glir yn ein papur diweddar Polisi Masnach: y materion ar gyfer Cymru ein bod yn credu mewn system deg ac effeithiol o ddiogelwch cymdeithasol i helpu pobl pan fydd angen y cymorth arnynt, ac y dylai polisi masnach gefnogi ein model cymdeithasol yn hytrach na'i danseilio. At hynny, rydym wedi gofyn am ddatblygu egwyddorion trosfwaol polisi masnach sy'n cynnwys cynnal mesurau diogelu pwysig o ran yr amgylchedd, yr economi a chymdeithas, cefnogi llesiant i bawb yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, cydnabod ein cyfrifoldebau ar lwyfan y byd a hyrwyddo masnach deg a moesegol.

**<u>Argymhelliad y Pwyllgorau:</u> Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru'r Cynllun Cydlyniant Cymunedol cyn tymor yr haf 2018, a hynny er mwyn sicrhau ei fod yn cymryd i ystyriaeth y cynnydd a welwyd yn ddiweddar mewn troseddau casineb a'r heriau newydd sy'n bodoli o ran cydlyniant cymunedol yng Nghymru.**

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r cynllun cydlyniant cymunedol a'r cynllun gweithredu i fynd â'r afael â throseddau casineb. Diweddarwyd ein cynllun cydlyniant cymunedol yn ddiweddar i adlewyrchu'r cynnydd mewn troseddau casineb o ganlyniad Brexit.

Rydym yn defnyddio ein dogfen waith wrth weithio gyda phartneriaid, ac mae hyn wedi ein galluogi i ganolbwyntio ar nifer o feysydd blaenoriaeth dros y misoedd diwethaf. Er enghraifft:

- Gweithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid i ddatblygu ein rhwydwaith cyfathrebu Cydraddoldeb a Chynhwysiant, i geisio cynyddu ein heffaith ar y cyd wrth atal rhethreg negyddol.
- Gweithio gyda Heddluoedd a Phrifysgol Caerdydd ar brosiect cyffrous i ddatblygu a gwella systemau monitro tensiwn sy'n ymgorffori gwaith amlasiantaeth.
- Gweithio gyda chydweithwyr addysg wrth iddynt ddiweddaru eu canllawiau Parchu Eraill a gwrth-fwlio er mwyn i'r ddogfen gefnogi athrawon i fod yn fwy hyderus wrth ymdrin ag achosion o fwlio sy'n ymwneud â chasineb mewn ysgolion.
- Gweithio gydag aelodau o Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru ar gyfer Troseddau Casineb i ddatblygu'r gwaith o fynd i'r afael â throseddau casineb, er enghraifft eleni rydym yn canolbwyntio ar "gyfraddau gadael cyn gorffen" (y llwybr a'r achosion a ollyngwyd rhwng cael eu hadrodd yn gyntaf, ymdriniaeth yr heddlu, ac erlyniad), troseddau casineb ar sail anabledd, a hefyd troseddau casineb sy'n ymwneud ag oedran a chamdriniaeth.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu wyth Cydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol i hwyluso gweithio rhanbarthol. Caiff y Cydgysylltwyr eu monitro yn erbyn y camau gweithredu sydd yn y ddogfen waith. Caiff y camau gweithredu hyn eu grwpio o dan bedwar amcan:

- Gwaith ar lefel strategol i chwalu'r rhwystrau i gynhwysiant ac integreiddio ar draws grwpiau ymylol
- Gwaith ar lefel leol i chwalu'r rhwystrau i gynhwysiant ac integreiddio ar gyfer grwpiau a chymunedau penodol
- Cefnogi mewnfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches a chymunedau sydd wedi setlo yn ystod y broses integreiddio
- Cefnogi cymunedau i atal gelyniaeth ac eithafiaeth a rheoli canlyniadau

Yours sincerely

**CARWYN JONES**